Once Upon A Time Nursery
56 Railway Terrace
Llanelli
Carms
SA15 2RH

CIW W130000376

Website
www.llanellinursery.co.uk
Phone
01554 785 173
Email
enquiries@llanellinursery.co.uk

# Polisi Diogelwch Ar-lein

| |
|---|
| Cymru: SGC |
| 20.1 - 20.6 |

Mae ein meithrinfa yn ymwybodol o’r twf yn y defnydd a wneir o’r rhyngrwyd a’r manteision posib ddaw gyda hyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn ymwybodol o’r peryglon ac yn ceisio cefnogi plant, staff a theuluoedd i ddefnyddio’r rhyngrwyd mewn modd diogel.

Yn y feithrinfa rydym yn anelu at gadw plant, staff a rhieni yn ddiogel ar-lein:

- Sicrhau bod gennym feddalwedd gwrth firws a gwrth ysbïwedd priodol ar bob dyfais a’u bod yn cael eu diweddaru’n rheolaidd
- Sicrhau bod rhwystrau cynnwys a meddalwedd hidlo ar bob un o’n dyfeisiadau, e.e. cyfrifiaduron, gliniaduron, tabledi ac unrhyw ddyfeisiadau symudol
- Cadw cyfrineiriau yn ddiogel a saff, heb eu rhannu na gwneud cofnod ohonynt. Bydd y rhain yn cael eu newid o leiaf bob tymor i gadw’r dyfeisiadau yn ddiogel.
- Sicrhau bod y rheolwyr yn monitro pob gweithgaredd rhyngrwyd yn y lleoliad
- Rhoi pob un o ddyfeisiadau’r feithrinfa dan glo ar ddiwedd y dydd
- Sicrhau nad oes unrhyw apiau cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon wedi ei gosod ar ddyfeisiadau’r feithrinfa
- Y Rheolwyr i adolygu pob ap neu gêm sydd wedi eu lawrlwytho i dabledi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer oedran y plan ac i ddiogelu’r plant a’r staff
- Defnyddio dim ond dyfeisiadau’r feithrinfa i recordio/dynnu lluniau yn y lleoliad
- Peidio byth ag e-bostio gwybodaeth bersonol neu ariannol
- Sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio wrth ddefnyddio dyfeisiadau rhyngrwyd
- Dysgu plant sut i aros yn ddiogel ar-lein ac adrodd unrhyw bryderon sydd ganddynt
- Defnyddio meddalwedd tracio i fonitro priodoldeb y defnydd a wneir o’r rhyngrwyd (ar gyfer plant hŷn)
- Peidio â chaniatáu i staff neu ymwelwyr gael mynediad i Wi-Fi y feithrinfa
- Integreiddio diogelwch ar-lein i ymarfer dyddiol y feithrinfa drwy drafod y ‘rheolau’ ar gyfer defnyddio’r rhyngrwyd gan benderfynu gyda’n gilydd beth sy’n ddiogel a beth sy’n anniogel i’w wneud ar-lein
- Siarad gyda phlant am ‘berygl dieithriaid’ a phenderfynu pwy sy’n ddieithryn a phwy sydd ddim yn ddieithryn, gan gymharu pobl mewn sefyllfaoedd pob dydd gyda ‘ffrindiau’ ar-lein.

- Wrth ddefnyddio Skype a FaceTime (ble mae hyn yn berthnasol), trafod gyda'r plant beth fyddent yn ei wneud petai rhywun nad ydynt yn ei adnabod/hadnabod yn ceisio cysylltu â nhw
- Rydym yn glynu at bolisi defnydd derbyniol, gan sicrhau bod staff yn defnyddio dim ond offer TG y gwaith ar gyfer materion sy'n ymwneud â phlant a'u haddysg a'u gofal. Nid ydym yn caniatáu defnydd personol.
- Mae amser plant ar y sgrin yn cael ei fonitro i sicrhau eu bod yn ddiogel ar-lein a bod ganddynt fynediad at ddeunydd sy'n hyrwyddo eu datblygiad. Byddwn yn sicrhau bod eu hamser sgrin o fewn lefel amser sy'n dderbyniol a'i fod wedi ei integreiddio i'w rhaglen ddysgu.